

## CYNGOR CYMUNED YSTRAD MEURIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion cyfarfod Nos Iau, 29 Medi 2016 am 8.00 yr hwyr yn Neuadd Eglwys Gwnnws. Minutes of meeting held Thursday, 29 September 2016, 8.00pm at Gwnnws Church Hall.

**Yn bresennol / Present:** Cyng. Tomos Jones (Caebalcog), Dafydd Jones, David M Jones a Geraint Jones, Siarl Owen. Rhodri Davies, Tomos Jones a Wyn Evans.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfoddd 30 Mehefin a 4 Awst 2016. The minutes of the meetings held 30 June and 4 August 2016 were received as a correct record.

### Materion yn codi/Matters arising.

1. **Japanese Knott Weed:** roedd y Clerc wedi cynnal sgwrs efo Cyfoeth Naturiol Cymru a fyddai'n medru delio gyda'r tyfiant hwn fel rhan o'i rhaglen gwaith. Nododd y Cyng. David M Jones ei fod ef a leuan wedi treulio diwrnod yn tacluso yn y Parc, cytunwyd i dalu £100 i leuan fel gwerthfawrogiad o'r gwaith. Cafwyd addewid hefyd i dorri'r gwair unwaith eto cyn y Gaeaf.

The Clerk had spoken to Natural Resources Wales who will deal with the growth as part of their work programme. Councillor David M Jones informed the meeting that he and leuan had spent a day tiding the Park, it was agreed to pay £100 to leuan to acknowledge his work. It was also promised that a further cut to grass would take place before the Winter.

2. Gardd y Parc / Park Garden: Cytunodd y Clerc i edrych ar pa waith papur oedd ar gael parthed yr ardd sydd yn y Parc. Clerk agreed to look at what documents are in the file with regards to the garden in the Park.
3. Barclays 29/07/2016 = £4,363.55.
4. CSC Rhybudd Cau Ffordd Dros Dro, A485 Tynyreithin, 27 Medi 2016. CCC Temporary Road Closure notice, A485, Tynyreithin, 27 September 2016.
5. CSC Cais Cynllunio A160826 / CCC Planning Application A160826 – “the installation of a vertical slate hanging on the west gable end of grade II listed church, St. John's the Baptist, Ystrad Meurig – dim gwrthwynebiad / no objection.
6. CSC Pwyllgor Rheoli Datblygu – derbyniwyd agenda a phapurau'r cyfarfod 14 Medi 2016. CCC Development Control Committee – agenda and papers for the meeting 14 September 2016 were received.
7. Grant Thornton - derbyniwyd tystysgrif archwiliad mewnol 2015-2016 oddi wrth Grant Thornton. The internal audit certificate for 2015-2016 was received from Grant Thornton.
8. Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd – derbyniwyd llythyr oddi wrth Dafydd Llywelyn yn gofn am ein barn ar y blaenoriaethau a ddylai cael ei cynnwys yn y Cynllun Heddlu a Throsedd. Police and Crime Commissioner – a letter was received from Dafydd Llywelyn asking us on what should be included as priorities in the Police and Crime Plan.
9. Theatr Felinach: cytunwyd i gyfrannu £50 tuag at cynhyrchiad Teilwng yw'r Oen. Felinfach Theatr: it was agreed to contribute £50 toward the production of “Teilwng yw'r Oen”.

10. Mark Williams AS – rhestr cymorthfaoedd/list of surgeries: 5/10 at Pontrhydfendigaid and 21/10 at Tregaron.
11. Gweithdy Sgwrs Iach – Neuadd Goffa, Penparcau, 5 Hydref 2016. Let's Talk Health Workshop – Penparcau Memorial Hall – 2 October 2016.
12. Cytunwyd i gynnal Gwasanaeth Sul y Cofio wrth y Gofgolofn yn Swyddffynnon, 1.00 o'r gloch ar Sul y Cofio. Cytunwyd i ofyn i Annwen Davies arwain y gwasanaeth yn ôl yr arfer. Remembrance Sunday – it was agreed to hold a service as usual on Remembrance day at the Monument, Swyddffynnon 1.00pm. It was agreed to ask Annwen Davies to lead the service.
13. Ar gais y Cynghorydd Wyn Evans, cytunwyd i gyfrannu £50 at brynnu golau i Goeden Dolig Tynygraig. On Councilor Wyn Evans' request it was agreed to contribute £50 towards purchasing Christmas tree lights for the tree at Tynygraig.
14. I'r dyddiaur / Diary  
  
Coeden Nadolig, Tynygraig, Nos Lun, 5ed Rhagfyr 2016, 6.00 o'r gloch  
Cinio Blynyddol, Clwb Rygbi, Tregaron, Nos Wener 9fed Rhagfyr 2016.
15. Cytunwyd bod y Clerc yn ysgrifennu at y Cyngor Sir i dynnu ei sylw at y gwli y tu allan i Fferm Pengraig, Ystrad Meurig ac I'r dwr sy'n crynhoi ar draws y ffordd ger mynedfa TyNant, Tynreithyn. It was agreed that the Clerk would write to the County Council to draw their attention to the blocked gully outside Pengraig Farm, Ystrad Meurig and to the water on the road by the entrance to TyNant, Tynreithyn.